ARCHWILIO'R CASTELL
WWW.CASTELLCAERIW.COM





# CASTELL CAERIW

**Mae hanes Castell Caeriw yn ymestyn dros 2,000 o flynyddoedd. Defnyddiwch y canllaw hwn i archwilio'r Castell a darganfod ei stori.**

Bydd ein tywyswyr yn hapus iawn i ateb unrhyw gwestiynau. Gofynnwch am y teithiau tywys rhestredig, neu estynnwch am ein harweinlyfr o'r siop rhoddion.

Mae Castell a Melin Heli Caeriw ar brydles i Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac yn cael eu rheoli ganddynt. Ein bwriad yw cadw'r Heneb Hynafol Restredig, Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Adeilad Rhestredig, wrth helpu ein hymwelwyr i'w mwynhau.




*Mae'r Castell yn ymfrostio mewn croes Gristnogol wedi'i chysegru i Maredudd ap Edwin, Tywysog o Gymru o'r 11eg ganrif*

**Dewch i adnabod y Parc Cenedlaethol ar-lein...**

**WWW.FACEBOOK.COM/CAREWCASTLE**
**WWW.CASTELLCAERIW.COM**
**WWW.ARFORDIRPENFRO.CYMRU**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park



*Argraff artist o Gaeriw fel caer o'r Oes Haearn*

## 1 Cadarnle Hynafol

Mae Caeriw wedi bod yn safle pwysig am filoedd o flynyddoedd. Fe wnaeth ei leoliad ar fryn isel, gerllaw afon fordwyol y lle yn boblogaidd mor bell yn ôl â'r Oes Haearn.

*Edrychwch am olion ffosydd amddiffynnol yr Oes Haearn yn llain glas y Castell wrth i chi sefyll ac edrych i gyfeiriad Croes Caeriw.*

## 2 Grym Normanaidd

Daeth y Normaniaid i Sir Benfro yn yr 11eg ganrif a mynd ati i 'ddarostwng' y bobl leol. Fe gafodd yr hen amddiffynfeydd eu gwastatau gan Gerald de Windsor, cynrychiolydd swyddogol Brenin Lloegr, ac fe adeiladodd ei gastell ei hun. Fe gynyddwyd ei rym ef yn yr ardal trwy ei briodas â merch brydferth leol, y Dywysoges Nest, merch Rhys ap Tewdwr, brenin Celtaidd olaf y Deheubarth.

*Allwch chi sbotio'r holltau saethau yn y waliau?*

*Edrychwch i fyny i weld y 'tyllau lladd' a ddefnyddiwyd gan warchodwyr i daflu pethau erchyll ar ben yr ymosodwyr. Beth fydden nhw'n eu taflu yn eich barn chi?*


*Allwch chi weld ble fyddai'r porthcwlis (y gât oedd yn disgyn) wedi bod?*

## 3 Dianc trwy'r toiled!


Y gilfach hon yn y Porthdy Mewnol yw'r toiled (neu'r gwardrob) ar gyfer yr Hen Dŵr. Yn ôl yr hanes fe ddihangodd Gerald i lawr siafft y toiled hwn pan ymosododd Owain, Tywysog Cymru, ar y Castell a chipio'r Dywysoges Nest. Mae'n debyg fod Nest yn ddigon parod i gael ei chipio a bu hi ac Owain yn byw gyda'i gilydd yn ddigon hir i gael dau blentyn, cyn iddi ddychwelyd at ei gŵr.



*Wrth iddi gael ei chadw'n wystl yn llys William II, daeth Nest yn gariad i'r Tywysog Harri (yn ddiweddarach Harri I) a gyda'i gilydd fe gawson nhw fab. Dywedir fod ysbryd Nest yn crwydro'r Castell gyda'r nos.*




**Yr Hen Dŵr**




Mae hwn yn safle hanesyddol gydag arwynebau anwastad, drysau isel ac ardaloedd tywyll. Byddwch yn ofalus, os gwelwch yn dda, a chofiwch oruchwylio plant.

**Allwedd:**
- 1 Llawr gwaelod
- 6 Ar y llofft
- Rhywbeth i'w weld
- Rhywbeth i'w wneud

## 4 Adnewyddiad Canoloesol

Fe 'foderneiddiwyd' y Castell yn ystod y 13eg ganrif gan Syr Nicholas de Carew a ychwanegodd dyrau drwm, rhodfeydd gwarchodwyr, holltau saethau, bylchfuriau a phorthcwlis.

*Ceisiwch ddychmygu'r Castell fel yr oedd - nid yn adfail, ond yn lle prysur, swnllyd, drewllyd a thywyll yn llawn pobol ac anifeiliaid.*

## 5 Cartref o fewn Castell

*Ewch drwy'r bwa i'r isgrofft.*

Yr Asgell Ddwyreiniol yw ble y bu Syr Nicholas de Carew a'i deulu'n byw. Defnyddiwyd yr is-grofft i storio bwyd, cwrw a gwin.

*Yn yr Is-grofft fe ddewch chi ar draws rhai paneli darluniadol sy'n dweud y cwbl wrthych am Gastell Caeriw.*

Trwy'r bwa nesaf mae'r Gegin. Mae darganfyddiadau diweddar yn awgrymu bod pysgod, defaid a pheunes ar y fwydlen. Mae gan Ystafell y Stiward drws nesaf ei dŷ bach en-suite ei hun!



*Argraff artist o Gaeriw yn 1300*


*Edrychwch ar y lle tân a dychmygwch wneud y coginio i gyd ar gyfer y Castell yma - berwi potiau, rhostio cig ar bêr, pobi bara a chacennau ar radell fflat.*

## 6 Crefydd ac ofergoeledd


I fyny'r grisiau mae'r Capel sydd â nenfwd cromennog ac yn wreiddiol fe fyddai wedi'i baentio mewn lliwiau llachar o goch, glas ac aur. Fe allwch chi weld o hyd y cawg i ddal dŵr sanctaidd, yr ambari i storio llestri cysegredig a'r pisgina i arllwys y dŵr i ffwrdd.

Tu hwnt i'r Capel mae Ystafell yr Offeiriad a'r gwardrob.

*Allwch chi ddod o hyd i linellau gwan bwrdd Nine Men's Morris wedi'u crafu i mewn i'r plastr nesaf at ffenest ogleddol y capel? Gallai hyn fod yn symbol i gadw ysbrydion drwg draw.*



**Bwrdd Nine Men's Morris**




*Edrychwch i fyny ar do'r Capel a gweld ei fwâu cromennog.*

*Edrychwch os allwch chi ddod o hyd i le y cedwir y dŵr sanctaidd; cilfach fechan ydyw a elwir yn gawg.*

**7 Mae'r grisiau** y tu allan i'r Capel yn mynd â chi i'r Solar, lle byddai'r Arglwydd a'i deulu wedi byw a chysgu. Uwchben y Solar mae'r bylchfuriau a rhodfa'r gwarchodwyr.

*Edrychwch am y corbelau (bracedi carreg) fyddai wedi cynnal prennau'r to.*

*Dychmygwch sŵn esgidiau'r milwyr wrth iddyn nhw wylio o'r rhodfa uwchben.*

## 8 Syr Rhys ap Thomas, Crëwr Brenhinoedd

Ewch nôl lawr y grisiau, heibio i ddrws y Neuadd Lai ac yn syth i fyny'r grisiau trwy sawl ystafell i'r platfform uwchben y porthdy mewnol, sy'n edrych allan dros y Clos i gyfeiriad y Neuadd Fawr.

*Allwch chi weld tair tarian yn cynnwys arfbeisiau uwchben y fynedfa?*

Adeiladwyd y Porth Mawr, y fynedfa i'r Neuadd Fawr, gan Syr Rhys ap Thomas a ddaeth yn ffefryn brenhinol ar ôl helpu Harri Tudur i fuddugoliaeth ym Mrwydr Bosworth. Dywedir mai Rhys laddodd Richard III), ac fe'i urddwyd yn farchog ar faes y gad. Roedd yr arfbais yn berchen i Harri VII (neu Harri Tudur), ei fab hynaf y Tywysog Arthur a'i wraig Catherine o Aragon, a briododd frawd Arthur yn ddiweddarach, sef Harri VIII.

*Ewch ymlaen i Dŵr y De Ddwyrain ac i Solar y Gwragedd.*

*Arwyddlun Richard III oedd baedd. Ysgrifennodd bardd o Gymru, Guto'r Glyn, fod Rhys ap Thomas "wedi lladd y baedd, ac eillio'i ben"*

*Dychmygwch edrych trwy'r ffenestr hyfryd ar olygfa cefn gwlad. Edrychwch os allwch chi sbotio Eglwys Cheriton Caeriw.*


*Allwch chi weld yr amlinell o'r to ar ongl gyda rhodfa'r gwarchodwyr uwchben?*

*Mae llawer o dyllau yn y waliau. Beth oedd eu pwrpas? Nythod i golomennod? Cynhaliaeth i ddiwedd y trawstiau wrth i'r waliau gael eu hadeiladu- rhyw fath o system sgaffaldau? Tyllau i guddio ynddynt?*

## 9 Ystafell addas i frenin

*Gwnewch eich ffordd yn ôl i'r Neuadd Lai.*

Fe adnewyddodd Syr Rhys ap Thomas lawr uchaf y Neuadd Lai, gan greu ystafell wely frenhinol yn addas i frenin. Byddai'r waliau wedi bod yn baneli pren yn null y Tuduriaid gyda thapestrïau ar y waliau.



*Marchogion yn ymladd*

*Edrychwch i fyny ac fe welwch chi le tân wedi'i wneud o gerrig Caerfaddon sy'n cario arfbais Harri Tudur.*

*Dychmygwch eich bod yn eistedd wrth fwrdd mawr hir yn mwynhau gwledd, yn gwrando ar gerddoriaeth neu wylio cellweiriwr y llys.*



*Argraff artist o wledd yn y Neuadd Fawr*

## 10 Y Twrnamaint Mawr

*Ewch allan ac ar draws y clos i'r Neuadd Fawr.*

Yn 1507 fe wahoddodd Syr Rhys 600 o bendefigion a phendefigesau i Gaeriw ar gyfer y Twrnamaint Mawr i ddathlu cael ei urddo yn Farchog y Gardys. Hon oedd y wledd fawr Ganoloesol olaf yng Nghymru, ac roedd y digwyddiad pum diwrnod yn cynnwys ymladd a gwledda.

*Rydych chi'n sefyll yn yr is-grofft i'r Neuadd Fawr. Edrychwch i fyny- allwch chi weld lleoedd tân enfawr?*

Yn hwyrach, gartre, ceisiwch liwio lun y marchogion yn ymladd.

## 11 Bywyd Gwyllt yng Nghaeriw

Mae Tŵr y De Orllewin ar gau i'r cyhoedd er mwyn diogelu'r ystlumod sy'n byw yno. Mae mwy na hanner yr holl rywogaethau o ystlumod a geir ym Mhrydain- yn cynnwys yr ystlumod pedol mwyaf, sy'n brin iawn - wedi'u cofnodi yma. Mae tylluanod yn nythu yn adfeilion y Castell hefyd. Adeg y cyfnos fe allwch chi weithiau weld tylluan wen yn hela o gwmpas y Castell.

*Beth mae ystlumod a thylluanod yn hoffi bwyta yn eich barn chi? Ar eich ffordd i'r Castell fe aethoch chi heibio arwydd yn hongian ar y ffens sy'n ateb y cwestiwn hwn. Edrychwch amdano ar y ffordd allan.*



Polypody'r De



Ystlum Bedol Fwyaf



Tylluan wen



## 12 Ysbryd yr Epa

Dywedir fod ysbryd epa yn crwydro'r bylchfuriau uwch ben Tŵr y Gogledd Orllewin, yr epa a laddodd ei feistr, y Syr Roland Rhys drwg ei dymer, un o denantiaid mwyaf ecsentrig Caeriw.

*Caewch eich llygaid a dychmygwch y gwynt yn chwibanu o gwmpas y Castell a thrwyddo daw sŵn cwyn-fanllyd epa!*



Macaque barbari

## 13 Technoleg yr Heli

*Edrychwch allan trwy ffenestr ganol y tŵr ac fe welwch chi'r sarn a'r Felin Heli.*

Mae adeiladau'r Felin yn dyddio o'r 19eg ganrif, ond mwy na thebyg fe adeiladwyd y felin gyntaf yng Nghaeriw i wasanaethu'r castell Canoloesol.Adeiladwyd sarn ar draws yr Afon Caeriw i greu Pwll y Felin. Roedd yr ynni heli oedd yn rhoi pŵer i'r Felin yn rhad, yn lan ac yn adnewyddadwy.

*Beth oedd yn cael ei falu yma tybed yn eich barn chi? Ar ôl i chi fod o gwmpas y Castell, cerddwch i lawr i'r Felin ac fe gewch chi wybod beth.*

## 14 Estyniad Elisabethaidd

*Ewch nôl i lawr y grisiau allan i'r Clos a throwch i'r chwith. Mae hyn yn arwain i'r Asgell Elisabethaidd (neu Y Rhes Ogleddol).*

Ychwanegwyd yr estyniad tri llawr hwn gan y coegwych Syr John Perrott, y dywedir ei fod yn fab anghyfreithlon i'r brenin Harri'r VIII. Newidiodd y ffenestri mawr sy'n edrych dros Bwll y Felin gymeriad y Castell o fod yn gaer Ganoloesol i fod yn blasty ffasiynol yn y wlad.



*Oriel Hir Perrott oedd yn mynd ar hyd y Rhes y Ogleddol*

## 15 Ystafell a golygfa

Dychmygwch yr olygfa o'r Oriel Hir yn yr Oesoedd Canol, wrth i bobol ac anifeiliaid weithio yn y caeau i gynhyrchu eu bwyd. Roedd John Perrot am wneud yn siŵr fod y golygfeydd yn gydnaws â'i ffenestri newydd ffasiynol ac felly fe ail gyfeiriodd e'r ffyrdd, symud y pentref a symud allan denantiaid o'r ffermydd oedd yn difetha ei olygfa!

*Gartre fe allech chi liwio llun y bobol yn yr Oriel Hir.*

*Wrth i chi adael yr Asgell Elisabethaidd allwch chi sbotio'r unig 'gargoil' sydd yn y Castell? (Awgrym – edrychwch i fyny)*

## 16 Rhyfel Cartref

Fe welwyd nifer o wrthdrawiadau rhwng Brenhinwyr a Seneddwyr yng Nghaeriw. Yn 1648 o'r diwedd fe ddifethodd y Seneddwyr y wal ddeheuol a'r ceginau er mwyn atal byddin y Brenhinwyr rhag adfeddiannu'r Castell. Mae archeolegwyr wedi dod o hyd i beli mwsged, wedi'u gwneud allan o blwm mwy na thebyg a gymerwyd o doeau'r Castell, ei ffenestri a'i bibau.

*Wrth i chi fynd yn ôl trwy'r Porthdy Mewnol allwch chi ddod o hyd i'r tyllau llifo ar gyfer y bariau a gadwai ddrysau enfawr y Porthdy Tuduraidd ar gau?*

## 17 Gwarchodle

Peidiwch â cholli'r cyfle i ymweld â'r Gwarchodle ynghudd yn y Tŵr De Dwyreiniol

*Pan fyddwch chi yn y Gwarchodle, edrychwch allan am yr ystafell gudd. Beth oedd defnydd hon tybed?*

## 18 Adfail rhamantaidd

O 1686 ymlaen fe aeth y Castell yn adfeilion. Cymerwyd cerrig oddi yno a'u hail ddefnyddio mewn tai lleol ac adeiladau ffermydd. Fe drodd odynau calch y calchfaen yn wyngalch a gwrtaith. Fe anfarwolwyd yr adfail rhamantaidd gan arlunwyr megis JMW Turner.

**Llawer o bethau eraill i'w gweld a'u gwneud yng Nghaeriw...**

Cerdded i lawr Lôn y Felin i'r unig Felin Heli yng Nghymru.

Mynd ar hyd y llwybr bob ochr i'r Castell i gerdded o gwmpas muriau'r Castell.

Dal crancod ar y sarn.

Taith gerdded gylch un filltir yn addas i gadeiriau olwyn o gwmpas Pwll y Felin.

*Gweledigaeth ramantaidd JMW Turner o Gastell Caeriw (trwy garedigrwydd Oriel Gelf Dinas Manceinion)*

